# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 21/09/2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

***11. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch ei weithrediadau yng Nghymru yn y dyfodol. OAQ(3)3063(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae 'Cymru'n Un' yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau llwyddiant y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae gennym berthynas weithio effeithiol â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yma yng Nghymru, ac mae Gweinidogion yn cael trafodaethau rheolaidd â chomisiynydd Cymru a chyfarwyddwr Cymru ar ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb.

### Gwasanaeth Llys

***12. Chris Franks:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch y Gwasanaeth Llys yng Nghymru. OAQ(3)3058(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi bod yn gohebu â Gweinidogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch eu cynigion ar gyfer ad-drefnu ystad y llysoedd.

### Arbedion Effeithlonrwydd

***13. Angela Burns****: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am arbedion effeithlonrwydd arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)3057(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Eleni, yr ydym yn disgwyl rhagori ar ein targed o arbed £6 miliwn ar gostau rhedeg, nad ydynt yn gostau staff, Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym eisoes wedi arbed mwy na £2 filiwn yn ystod y chwarter cyntaf. Yr ydym wedi cwtogi'n gyson ar gostau staff dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys arbedion blynyddol gwerth mwy na £14 miliwn o ganlyniad i staff sy'n gadael y mis hwn.

### Cyfryngau Cenedlaethol

***14. Sandy Mewies:*** *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod Cymru yn cael ei chefnogi gan gyfryngau cenedlaethol da ac amrywiol. OAQ(3)3071(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Er nad yw darlledu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynegi ei phryder ynghylch colli amrywiaeth o ran teledu cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi manteisio ar bob cyfle i bwyso ar Lywodraeth y DU i gymryd camau brys i ddiogelu rhaglenni a gwasanaethau yng Nghymru.

### Gweinidog dros y Cymoedd

***15. Trish Law:*** *A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i benodi Gweinidog dros y Cymoedd. OAQ(3)3056(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd.